

CYFARFOD Y CYNGOR a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 19eg Chwefror 2020 yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd Dinesig, Ffordd Wellington, y Rhyl yn dechrau am 6.00pm.

YN BRESENNOL

Y Cynghorydd Mrs E. M. Chard (Maer)

Y Cyngorwyr B. Blakeley, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones, A. R. James, A. S. Johnson, B. Jones, K. R. Jones, Mrs D. L. King, Ms J. L. McAlpine, B. Mellor, Mrs W. M. Mullen-James, P. Prendergast, Miss S. L. Roberts, Ms V. Roberts, A. J. Rutherford, T. Thomas a Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

126. CYCHWYN Y CYFARFOD AC YMDDIHEURIADAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau.

127. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd canlynol o'r cyngor a'i bwyllgorau i'w cymeradwyo fel cofnod cywir:

Y Cyngor - 15fed Ionawr 2020 - Rhifau Cofnod 114-125

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs E. M. Chard ac eiliwyd gan y Cynghorydd Mrs D. L. King a **PHENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir, yn amodol ar y newid.

Pwyllgor Cynllunio - 15fed Ionawr 2020 - Rhifau Cofnod 37-39

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James ac eiliwyd gan y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine a **PHENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir.

Pwyllgor Cynllunio - 5ed Chwefror 2020 - Rhifau Cofnod 40-43

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James ac eiliwyd gan y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine a **PHENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir.

I gadarnhau neu fel arall:

Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol - 5ed Chwefror 2020 - Rhifau Cofnod 50-73

Mewn perthynas â chofnod rhif 66 (Eitem er Gwybodaeth: Ffair Nadolig), dywedodd y Cynghorydd T. Thomas bod y cofnod yn anghywir gan nad oedd wedi dweud y byddai Cyngopr Sir Ddinbych yn cyfrannu £90,000 tuag at y digwyddiad.

Gyda chyfeiriad at gofnod rhif 68 (Eitem gan Aelod: Cais i Benodi Cynrychiolydd i Grŵp Busnes y Rhyl a BID y Rhyl), credai'r Cynghorydd T. Thomas bod y gwahoddiad a roddwyd gan y grŵp busnes heb ei wrthod, ond hefyd wedi ei ohirio i'r cyfarfod hwn o'r Cyngor, ynghyd â'r gwahoddiad gan BID y Rhyl?

Esboniodd Clerc y Dref, mewn perthynas â chofnod rhif 66, bod y cofnodion nawr yn y parth cyhoeddus ac ni ellid eu tynnu'n ôl, ond y byddai cywiriad y Cynghorydd Thomas yn cael ei nodi ar gopi swyddogol y cofnodion a'i gofnodi yma yng nghofnodion y cyfarfod hwn.

Mewn perthynas â chofnod rhif 68, roedd yr aelodau yn hapus i ail-ystyried y gwahoddiad gan y grŵp busnes, dan eitem rhif 9(ii) rhaglen heno.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. J. Rutherford ac eiliwyd gan y Cynghorydd A. R. James a **PHENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir a'u cadarnhau ar gyfer gweithredu, yn amodol ar gywiro'r cofnodion.

128. **ADRODDIAD Y MAER**

Cyfeiriodd y maer at ei phresenoldeb mewn digwyddiadau yn ystod y mis diwethaf, ac yn benodol at ymweliad Hannah Blythin â'r Rhyl i gyhoeddi pecyn ariannol ar gyfer 'Gweddnewid Trefi' a'i digwyddiad Pysgod a Sglodion yn Eglwys y Santes Fair, y Rhyl, ac roedd yn falch o adrodd bod y noson wedi codi £581.50 ar gyfer ei helusennau.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.

129. **AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR O GYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)**

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y cyngor a gynhaliwyd ar 15fed Mawrth 2017, ac yn unol â rheoliadau ariannol y cyngor, cyflwynodd Clerc y Dref atodlen B (rhestr o daliadau an-rheolaidd i'w rhyddhau dros y mis i ddod) a manylion un cyflenwr ychwanegol i'r rhestr o gyflwynwyr ar ôl cymeradwyaeth gan yr aelodau.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r canlynol i'w talu a'i lofnodi gan ddau gynghorydd.

Taliadau Atodlen B i'w cymeradwyo (29ain Ionawr hyd at 11eg Chwefror 2020)

Cyflenwr	Manylion y Cyflenwad	Rhif Taleb	Swm £
Gunsmoke Communications	Baneri ar gyfer digwyddiadau	945	27.25
Delwedd Ltd	Lletya a Chynnal Gwefan	946	685.08
Delwedd Ltd	Tystysgrif Gwefan Ddiogel	947	57.59
Y Cyngh E. M. Chard	Treuliau'r Maer Ionawr 2020	948	114.75
Cyngor Sir Ddinbych	Taliadau Gwasanaeth ar gyfer Ffordd Wellington – Chwarter 4 2019/20	949	3823.00
Cyngor Sir Ddinbych	Contract goleuadau 2019/20	950	12,540.00
Cyfanswm Atodlen B			£17,247.67

130. PENODI ARCHWILWYR MEWNOL AC ALLANOL AR GYFER 2019/20

Cyflwynodd Clerc y Dref ei gyd-adroddiad ef a'r Swyddog Cyllid (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) ar benodi archwiliwr mewnol y cyngor, JDH Business Services, a'r archwiliwr allanol (fel y penodwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru), BDO LLP.

Gofynnodd Clerc y Dref i'r aelodau ystyried os oedd ganddynt unrhyw fuddiannau personol neu fusnes y dylent eu datgan mewn perthynas â'r penodiadau.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r penodiadau.

131. ARCHWILIO MEWNOL – ADRODDIAD INTERIM 2019/20

Adroddodd Clerc y Dref iddo dderbyn yr uchod (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) gan nodi pump o faterion roedd angen eu hadrodd i'r aelodau.

Awgrymodd Clerc y Dref bod yr adroddiad yn cadell ei gyfeirio i Is-bwyllgor Asesu Risg y cyngor i'w ystyried yn llawn, yn unol â'r drefn arferol nawr.

PENDERFYNWYD cyfeirio'r adroddiad i'r Is-bwyllgor Asesu Risg.

132. DYDDIAD CYFARFOD ANFFURFIOL Y CYNGOR

Awgrymodd Clerc y Dref bod y cyfarfod yn cael ei gynnal ar ddydd Mercher 4ydd Mawrth yn union ar ôl cyfarfodydd y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a'r Pwyllgor Cynllunio.

PENDERFYNWYD cynnal y cyfarfod ar 4ydd Mawrth, fel yr awgrymwyd.

133. GOHEBIAETH: BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS CONWY A SIR DDINBYCH

Adroddodd Clerc y Dref iddo dderbyn gohebiaeth gan y Bwrdd (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen), yn gwahodd cynrychiolydd o un o 37 o Gynghorau Dinas, Tref a Chymuned i gynrychioli'r sir yn ei gyfarfodydd.

Dywedodd Clerc y Dref bod Clerc Cyngor Tref Prestatyn wedi mynegi diddordeb.

Teimlai'r aelodau, fel y dref fwyaf yn Sir Ddinbych ac yng ngoleuni adroddiad diweddar Mynegai Amddifadiad Lluosog Cymru (WIMD) a'i oblygiadau pellgyrhaeddol i'r Rhyl a'r sir gyfan, ac o ystyried dealltwriaeth gadarn a dehongliad Clerc y Rhyl, Mr Gareth Nickels, o holl adroddiadau WIMD, y dylid ei enwebu ef i gynrychioli'r sir.

PENDERFYNWYD enwebu Clerc y Dref i gael ei ystyried i gynrychioli Cynghorau Tref a Chymuned Sir Ddinbych.

134. EITEM GAN AELOD: CAIS I WNEUD CYFLWYNIAD I'R CYNGOR

Oherwydd absenoldeb y Cynghorydd J. Ball yn y cyfarfod, awgrymodd y Maer y dylid gohirio'r eitem uchod i gyfarfod yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD gohirio'r eitem i gyfarfod yn y dyfodol.

135. EITEM GAN AELOD: GWAHODDIADAU I BENODI CYNRYCHIOLWYR I GRŴP BUSNES Y RHYL A BID Y RHYL

Atgoffodd Clerc y Dref yr aelodau o'r gwahoddiadau i benodi cynrychiolwyr i'r ddau grŵp a bod y Cynghorydd T Thomas, yn gywir, wedi camu i lawr fel cynrychiolydd y cyngor ar y grŵp busnes ar ôl cymryd swydd y Cadeirydd, gan greu swydd wag.

Cymerodd Clerc y Dref y cyfle i atgoffa'r holl gynrychiolwyr ar fudiadau allanol y dylent ei hysbysu os oedd unrhyw beth nodedig yr hoffent ei rannu gyda'r cyngor ehangach, a byddai'n cynnwys hynny fel eitem ar y rhaglen.

PENDERFYNWYD gwrthod y gwahoddiad gan y grŵp busnes a phenodwyd y Cynghorydd A. R. James i gynrychioli'r Cyngor Tref ar BID y Rhyl.

[Cyflwynodd y Cynghorydd T. Thomas ei eitem ac yna datganodd fuddiant personol oherwydd ei swydd fel Cadeirydd y grŵp busnes ac Is-gadeirydd y BID a dewisodd adael y siambr, heb gymryd unrhyw ran pellach yn y trafodaethau na'r bleidlais]

136. EITEM ER GWYBODAETH: PARTNERIAETH TELEDU CYLCH CYFYNG SIR DDINBYCH

Cyfeiriodd y Maer at ebost Mr Emlyn Jones (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn dweud y byddai pedwar camera blaenoriaeth uchel yn cael eu hadnewyddu yn y Rhyl yr wythnos hon, gan olygu y byddai'r stryd fawr gyfan, o Matalan i dop y Stryd Fawr, yn cael ei chynnwys.

Cadarnhaodd cynrychiolydd y cyngor ar y bartneriaeth, y Cynghorydd B. Mellor, bod y camerâu newydd wedi eu gosod.

137. EITEMAU ER GWYBODAETH

Cyfeiriodd y Cynghorydd Mrs J. Butterfield at erthygl roedd wedi ei darllen yn y Daily Post yr wythnos hon yn adrodd y byddai trenau yn gweithio i amserlenni newydd yn mynd heibio'r Fflint, Prestatyn, y Rhyl a Chonwy, mewn cam a oedd yn edrych fel pe bai'n elwa teithwyr De Cymru trwy leihau eu hamser teithio, ac yn anafanteisio teithwyr Gogledd Cymru.

Dywedodd Clerc y Dref nad oedd wedi gallu cymharu'r amserlen newydd gyda'r un bresennol gan nad oedd yn gallu cael hyd i'r un gyfredol, ac ychwanegodd mai'r Rhyl oedd y stop ail brysuraf ar y lein.

Yn ei swydd fel aelod o Gabinet Cyngor Sir Ddinbych, dywedodd y Cynghorydd B. Jones ei fod wedi ysgrifennu at Ken Skates AC yr wythnos hon ar y mater.

PENDERFYNWYD bod Clerc y Dref yn ysgrifennu at Drafnidiaeth Cymru i gyfleu anghymeradwyaeth y Cyngor Tref.

138. HOLI AC ATEB

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau gan aelodau'r cyhoedd a oedd yn bresennol.

139. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried gweddill yr eitem hon yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.

140. GWYBODAETH: COFNODION CYFRINACHOL

Cyfeiriodd y Maer at gofnodion y cyfarfodydd Pwyllgor CSG (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) er gwybodaeth i'r aelkoda:

Pwyllgor CSG - 11eg Tachwedd 2019 - Rhifau Cofnod 24-30

Pwyllgor CSG - 13eg Ionawr 2020 - Rhifau Cofnod 31-37

141. PWYLLGOR CSG - GWARIANT GWASANAETHAU A GOMISIYNIR

Ymhellach i gyfarfod y Pwyllgor CSG a gynhaliwyd ar 10fed Chawefror 2020, gofynnodd Clerc y Dref i'r aelodau gadarnhau argymhellion y pwyllgor i gefnogi Cyngor ar Bopeth, y Siop Cyngor ar Fudd-daliadau a Rownd Derfynol Prydain Dramâu Un Act.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r argymhellion.

142. TERFYNU'R CYFARFOD

Gan nad oedd unrhyw eitemau busnes pellach, dywedodd y Maer bod cyfarfod y Cyngor wedi dod i ben.

Maer:

Dyddiad: